



## Budd cyhoeddus

# Dadansoddiad o'r gyfraith mewn perthynas â budd cyhoeddus

Dylid darllen y dadansoddiad hwn law yn llaw â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 17(1) o Ddeddf Elusennau 2011 mewn perthynas â'i amcan budd cyhoeddus.

## Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b>	<b>3</b>
<b>Y gyfraith elusennau cyn Deddf Elusennau 2006</b>	<b>3</b>
<b>Deddfau Elusennau 2006 a 2011</b>	<b>5</b>
Cysyniadau allweddol	5
Parhad o'r gyfraith	5
Dibenion a gweithgareddau	6
Dim rhagdybiaeth o fudd cyhoeddus	6
Y 'gofyniad budd cyhoeddus', yr 'amcan budd cyhoeddus' a chanllawiau budd cyhoeddusy Comisiwn	6
Cwmpas amcan budd cyhoeddus y Comisiwn	7
Nid yw budd cyhoeddus yn gysyniad sefydlog	7
Datganiad empeiraidd o'r gyfraith	8
Breintiau ariannol	8
<b>Adnabod dibenion sefydliad</b>	<b>8</b>
<b>Budd cyhoeddus yn rhan annatod o ddiben elusennol</b>	<b>9</b>
Dwy agwedd ar fudd cyhoeddus	9
<b>Yr agwedd 'budd'</b>	<b>10</b>
Rhaid i ddiben fod yn fuddiol	10
Sut mae budd yn cael ei sefydlu	11
Nid yw credoau goddrychol rhoddwyr yn berthnasol	11
Budd a niwed	12

Dibenion gwleidyddol	12
Rhai materion heb fod yn draddodadwy	13
<b>Yr agwedd ‘cyhoeddus’</b>	<b>13</b>
Mae’n rhaid i’r budd fod i’r cyhoedd yn gyffredinol, neu ran ddigonol o’r cyhoedd	13
Cymhwyso’r rheol bod rhaid i ddiben bod er budd y cyhoedd yn gyffredinol neu ran ddigonol o’r cyhoedd er mwyn bod yn elusennol	14
Y gwahaniaeth rhwng y disgrifiadau o ddibenion	14
Atal neu leddfu tlodi	15
Dosbarth mympwyol	15
Dosbarth buddiol wedi’i ddiffinio gan ardal ddaearyddol	15
<b>Dosbarthiadau wedi’u cysylltu drwy gysylltiad personol</b>	<b>16</b>
Budd i’r ddwy ochr	16
Elusennau adloniadol	16
Dibenion y tu allan i Gymru a Lloegr	17
Dibenion sy’n gwahaniaethu	17
Ni all diben elusennol eithrio’r tlawd	17
Buddion personol damweiniol	18
Gall diben elusennol roi budd i unigolion	18
Ni all buddion i unigolion fod yn fwy na buddion damweiniol	19
<b>Budd cyhoeddus a rhedeg elusen</b>	<b>19</b>
Dyletswyddau a phwerau ymddiriedolwyr elusen	19
Y ddyletswydd i hyrwyddo dibenion yr elusen er budd y cyhoedd	20
Pan fydd ymddiriedolwyr elusen yn cyflawni tor-ddyletswydd	21
Newid dibenion	21
Codi tâl am wasanaethau	21
<b>Casgliad</b>	<b>22</b>

## Cyflwyniad

1. Mae Deddf Elusennau 2011 yn darparu ei bod hi'n ofynnol i ddiben elusennol fod er budd y cyhoedd. Mae'n diffinio hyn fel y 'gofyniad budd cyhoeddus'. Mae'r Ddeddf yn rhoi i'r Comisiwn Elusennau yr amcan o hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o weithredu'r gofyniad budd cyhoeddus, ac mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi canllawiau mewn perthynas â'r amcan hwnnw.
2. Cyhoeddodd y Comisiwn ganllawiau ar ei amcan budd cyhoeddus am y tro cyntaf yn Ionawr 2008. Erbyn hyn mae wedi diwygio ac ailgyhoeddi ei ganllawiau budd cyhoeddus. Drwy wneud hynny, mae wedi ystyried newidiadau diweddar i'r gyfraith a phenderfyniadau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd (gan gynnwys ystyriaeth gan yr Uwch Dribiwnlys o'i ganllawiau blaenorol yn **R (Independent Schools Council) v Comisiwn Elusennau**<sup>1</sup>), profiad o ddefnyddio ei ganllawiau gwreiddiol, a'r ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar ddrafft o'r canllawiau diwygiedig.
3. Mae'r dadansoddiad o'r gyfraith yn bwriadu darparu datganiad o'r gyfraith y mae canllawiau statudol y Comisiwn wedi'u seilio arni. Ni fwriedir iddo fod yn ddatganiad cyflawn o'r gyfraith. Nid yw'n ffurfio rhan o ganllawiau y Comisiwn ar fudd cyhoeddus (h.y. y canllawiau y mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusen eu hystyried wrth ymarfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau y mae'r canllawiau yn berthnasol iddynt.)
4. Mae'r dadansoddiad hwn yn crynhoi dealltwriaeth y Comisiwn o'r gyfraith fel ar Fehefin 2013.

## Y gyfraith elusennau cyn Deddf Elusennau 2006

5. Nid yw ystyr y term 'elusen' yn cyfateb i'w ystyr poblogaidd<sup>2</sup>. Mae'r cysyniad cyfreithiol modern o elusen yn tarddu o'r rhagymadrodd i'r Statud o Ddefnyddiau Elusennol 1601<sup>3</sup>. Roedd y llysoedd yn cydnabod y dibenion a restrir yn y rhagymadrodd hwnnw fel dibenion elusennol. Roedd y llysoedd hefyd yn cydnabod fel dibenion elusennol dibenion eraill oedd yn cyfateb i'r rhai a restrir yn y rhagymadrodd, neu a oedd yn cyfateb i'r rhai a gydnabuwyd ym mhenderfyniadau blaenorol y llysoedd, gyda'r holl ddibenion o'r fath yn cael eu disgrifio fel rhai sydd o fewn 'ysbryd ac ystyr' y rhagymadrodd. Yr hyn oedd rhaid ei ystyried oedd:

"nid geiriad y rhagymadrodd ei hun, ond effaith penderfyniadau'r llysoedd ar ei gwmpas, penderfyniadau sydd wedi sicrhau bod y gyfraith elusennau yn symud wrth i anghenion cymdeithasol newydd godi neu wrth i anghenion fod yn anarferedig neu wedi'u bodloni"<sup>4</sup>.

1 [2012] Ch 214.

2 **Commissioners for Special Purposes of Income Tax v Pemsel** [1891] AC 531; "... mae'r geiriau 'elusen' ac 'elusennau', at ddibenion cyfraith Lloegr ac ecwiti, ag ystyron hollol wahanol i'r ystyron sydd ganddynt mewn iaith addysgedig gyffredin neu, er enghraifft, yn y Fersiwn Awdurdodedig o'r Beibl ..."**IRC v McMullen** [1981] AC 1 yn 15 (yr Arglwydd Hailsham).

3 Gweler er enghraifft **Morice v Esgob Durham** (1805) 10 Ves Jun 521 yn 541 (yr Arglwydd Eldon) "... lle y ceir rhodd i elusen, yn gyffredinol, a yw i'w chyflawni gan unigolion, wedi'i dewis gan y cymynnwr ei hun neu'r Brenin, fel parens patriae, sydd i'w chyflawni....dyletswydd ymddiriedolwyr o'r fath, ar un llaw, a'r Goron, ar y llaw arall, yw defnyddio'r arian ar gyfer elusen, yn yr ystyr, y mae'r penderfyniadau wedi'u gosod ar y gair hwnnw yn y Llys hwn: sef naill ai dibenion elusennol o'r fath a fynegir mewn Statud (stad. 43 Eliz. c. 4), neu ddibenion sydd â chyfatebiaeth â'r rhain."

4 **Scottish Burial Reform and Cremation Society Ltd v Glasgow Corporation** [1968] AC 138 yn 154E (yr Arglwydd Wilberforce).

6. Yn **Income Tax Commissioners v Pemsel**<sup>5</sup> roedd yr Arglwydd Macnaghten wedi mabwysiadu'r dosbarthiad pedair rhan ganlynol o ddibenion elusennol:

“Mae ‘elusen’ yn ei hystyr gyfreithiol yn cynnwys pedair prif adran: ymddiriedolaethau sy’n lleddfu tlodi; ymddiriedolaethau sy’n hyrwyddo addysg; ymddiriedolaethau sy’n hyrwyddo crefydd; ac ymddiriedolaethau at ddibenion eraill sy’n fuddiol i’r gymuned, nad ydynt wedi’u cynnwys o dan unrhyw un o’r penawdau blaenorol.”

7. Defnyddiwyd y dosbarthiad hwn fel y sail ar gyfer datblygu’r gyfraith wedi hynny.

8. Roedd bob amser ymhlyg yn y cysyniad o elusen bod rhaid i ddiben fod er budd y cyhoedd er mwyn bod yn elusennol. Yn ystod yr 20fed ganrif, roedd penderfyniadau’r llysoedd wedi egluro bod budd cyhoeddus yn rhan annatod o bob diben elusennol, gan egluro agweddau amrywiol ar y cysyniad o fudd cyhoeddus.

9. Nid oedd diben sydd er budd y cyhoedd yn ddigon iddo fod yn elusennol. Er mwyn i ddiben fod yn elusennol, roedd rhaid iddo fod o fewn ysbryd ac ystyr y rhagymadrodd. Felly yn **Attorney-General v National Provincial & Union Bank of England**<sup>6</sup> dywedodd yr Arglwydd Cave LC, gan gyfeirio at bedwerydd categori’r Arglwydd Macnaghten:

“... nid oedd yr Arglwydd Macnaghten yn golygu bod pob ymddiriedolaeth at ddibenion sy’n fuddiol i’r gymuned yn elusennol, ond bod rhai ymddiriedolaethau elusennol sydd wedi’u cynnwys o fewn y categori hwnnw; ac felly fe ddadleuodd oherwydd bod ymddiriedolaeth er ddiben buddiol i’r gymuned ac felly yn ymddiriedolaeth elusennol yn troi ei frawddeg rownd ac yn rhoi ystyr gwahanol iddi. Felly yma nid yw’n ddigon i ddweud bod yr ymddiriedolaeth dan sylw at ddibenion cyhoeddus sy’n fuddiol i’r gymuned neu ar gyfer lles y cyhoedd; mae’n rhaid i chi ddangos ei fod yn ymddiriedolaeth elusennol.”

10. Mae darparu tai mewn amgylchiadau sydd heb eu cyfyngu i leddfu angen elusennol<sup>7</sup> yn enghraifft o ddiben y penderfynwyd oedd heb ei gynnwys o fewn ysbryd ac ystyr y rhagymadrodd, ac felly nid yw’n elusennol.

11. Yn **National Anti-vivisection Society v Inland Revenue Commissioners**<sup>8</sup> dywedodd yr Arglwydd Wright:

“Mae’r prawf o fudd i’r gymuned yn mynd trwy’r cyfan o ddsbarthiad yr Arglwydd Macnaghten, ond yng nghyd-destun y tri phennawd gyntaf, gellir cymryd hynny ar yr olwg gyntaf oni bai bod y gwrthwyneb yn amlwg.”

12. O ganlyniad ystyrid yn gyffredinol bod rhagdybiaeth bod diben a oedd wedi’i gynnwys yn y tri phennawd cyntaf er budd y cyhoedd er bod gwahaniaeth barn ynghylch natur ac effaith rhagdybiaeth o’r fath. Ystyrir yr agwedd hon ymhellach ym mharagraff 26.

---

5 [1891] AC 531 yn 583.

6 [1924] AC 262 at 265. Gweler hefyd **Williams’ Trustees v Inland Revenue Commissioners** [1947] AC 447; **Helena Partnerships Ltd v Commissioners for Her Majesty’s Revenue and Customs** [2012] EWCA (Civ) 569, [2012] PTSR 1409, ac awdurdodau pellach wedi’u dyfynnu yno.

7 **Helena Housing Ltd v Commissioners for Her Majesty’s Revenue and Customs** [2012] EWCA (Civ) 569, [2012] PTSR 1409.

8 [1948] AC31 yn 42.

## Deddfau Elusennau 2006 a 2011

### Cysyniadau allweddol

13. Mae Rhan 1 o Ddeddf Elusennau 2006, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2008, ac a gafodd ei gydgyfnerthu fel Rhan 1 o Bennod 1 o Ddeddf Elusennau 2011, wedi deddfu diffiniad statudol o 'elusen'. At ddibenion cyfraith Cymru a Lloegr, diffinnir y term 'elusen' gan adran 1 o Ddeddf Elusennau 2011 fel:

“sefydliad sydd (a) wedi'i ffurfio at ddibenion elusennol yn unig, a (b) sy'n ddarostyngedig i reolaeth yr Uchel Lys wrth ymarfer ei awdurdodaeth mewn perthynas ag elusennau.”

14. Diffinnir y term 'diben elusennol' gan adran 2(1) fel:

“diben sydd (a) wedi'i gynnwys o fewn adran 3(1), a (b) sydd er budd y cyhoedd.”

15. Drwy rinwedd y diffiniad hwn, mae'n rhan annatod o bob diben elusennol ei fod er budd y cyhoedd.

16. Mae Adran 3(1) yn darparu:

“mae diben wedi'i gynnwys o fewn yr is-adran hon os yw wedi'i gynnwys o fewn unrhyw un o'r disgrifiadau canlynol o ddibenion.”

17. Mae paragraffau (a) i (l) o adran 3(1) yn rhestru deuddeg disgrifiad penodol o ddibenion, rhai ohonynt wedi'u diffinio'n rhannol yn adran 3(2). Mae paragraff (m) yn ychwanegu dibenion eraill sy'n cael eu cydnabod yn elusennol drwy rinwedd adran 5, neu o dan y gyfraith sydd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2008, neu y gellir yn rhesymol ei ystyried ei fod yn cyfateb ag ysbryd diben elusennol arall, neu wedi'i gynnwys o fewn ysbryd diben elusennol arall.

18. Mae adran 5 yn egluro pryd y mae'n elusennol i ddarparu neu gynorthwyo i ddarparu cyfleusterau ar gyfer adloniant neu alwedigaeth amser hamdden arall.

19. Mae adran 4(1) yn diffinio'r 'gofyniad budd cyhoeddus' fel:

“y gofyniad yn adran 2(1)(b) bod rhaid i ddiben sydd wedi'i gynnwys o fewn adran 3(1) fod er budd y cyhoedd os yw am fod yn ddiben elusennol.”

20. Mae adran 4(2) yn darparu:

“Wrth benderfynu a yw gofyniad budd cyhoeddus wedi'i fodloni mewn perthynas ag unrhyw ddiben sydd wedi'i gynnwys o fewn adran 3(1), ni chymerir bod diben o ddisgrifiad arbennig er budd y cyhoedd.”

21. Mae adran 4(3) (sy'n amodol ar adran 4(2)) yn datgan, yn y bennod honno o'r Ddeddf, bod:

“unrhyw gyfeiriad at fudd cyhoeddus yn gyfeiriad at y budd cyhoeddus fel y deallir y term hwnnw at ddibenion y gyfraith sy'n ymwneud ag elusennau yng Nghymru a Lloer.”

### Parhad o'r gyfraith

22. Mae adran 3(3) o Ddeddf 2011 yn darparu fel a ganlyn:

“Os yw unrhyw dermau a ddefnyddir ym mharagraffau (a) i (l) o is-adran (1), neu yn is-adran (2), ag ystyr arbennig o dan y gyfraith sy'n ymwneud ag elusennau yng Nghymru a Lloegr, mae gan y term yr un ystyr fel y mae'n ymddangos yn y ddarpariaeth honno.”

23. Mae'r ddarpariaeth hon, ac adran 4(3), a ddyfynnir uchod, yn egluro bod penderfyniadau'r llysoedd ar gyfraith elusennau cyn i Ran 1 o Ddeddf Elusennau 2006 ddod i rym yn parhau i fod yn berthnasol i'r dehongliad o'r diffiniad statudol o elusen.

## Dibenion a gweithgareddau

24. Drwy rinwedd adran 2(1) o Ddeddf Elusennau 2011, mae'n rhan annatod o bob diben elusennol ei fod er budd y cyhoedd. Mae hefyd ddyletswydd ar ymddiriedolwyr elusen i weinyddu eu helusen er mwyn hyrwyddo ei dibenion. Gan ei fod yn rhan annatod o bob diben elusennol ei fod er budd y cyhoedd, mae dyletswyddau ymddiriedolwyr elusen yn cynnwys dyletswydd i hyrwyddo ei dibenion er budd y cyhoedd. Mae'r cysyniadau o ddibenion elusen a'r gweithgareddau a gyflawnir i hyrwyddo ei dibenion, er wedi'u cysylltu'n agos, yn gysyniadau gwahanol.

## Dim rhagdybiaeth o fudd cyhoeddus

25. Mae adran 4(2) o Ddeddf Elusennau 2011 (adran 3(2) o Ddeddf Elusennau 2006 cyn hynny) yn darparu:

“Wrth benderfynu a yw'r gofyniad budd cyhoeddus wedi'i fodloni mewn perthynas ag unrhyw ddiben sydd wedi'i gynnwys o fewn adran 3(1), ni chymerir yn ganiataol bod diben o ddisgrifiad arbennig er budd y cyhoedd.”

26. Mae penderfyniad yr Uwch Dribiwnlys yn **R (Independent Schools Council) v Comisiwn Elusennau**<sup>9</sup> wedi egluro'r dehongliad sydd i'w roi i'r ddarpariaeth statudol hon. Roedd yr Uwch Dribiwnlys wedi barnu nad oedd y llysoedd wedi cydnabod dibenion wedi'u cynnwys o fewn tri phennawd cyntaf yr Arglwydd Macnaghten fel dibenion elusennol drwy rinwedd gweithredu unrhyw ragdybiaeth. Dywedodd y Tribiwnlys:

“... mae'r hyn y mae Deddf 2006 wedi'i wneud yw canolbwyntio ar yr hyn y mae'r gyfraith a fodolai cyn hyn wedi ei gwneud yn ofynnol, a'r hyn y mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol erbyn hyn drwy gyfrwng darparu budd ac i bwy y mae'n rhaid darparu'r budd hwnnw.”

## Y 'gofyniad budd cyhoeddus', yr 'amcan budd cyhoeddus' a chanllawiau budd cyhoeddus y Comisiwn

27. Mae adran 4(1) o Ddeddf Elusennau 2011 yn diffinio'r 'gofyniad budd cyhoeddus' fel:

“y gofyniad yn adran 2(1)(b) bod rhaid i ddiben sydd wedi'i gynnwys o fewn adran 3(1) fod er budd y cyhoedd os yw am fod yn ddiben elusennol.”

28. Mae adran 14 o'r Ddeddf yn rhoi 'amcan budd cyhoeddus' i'r Comisiwn, sef:

“hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o weithredu'r gofyniad budd cyhoeddus”.

29. Mae adran 17(1) o'r Ddeddf yn darparu:

“Mae'n rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi canllawiau mewn perthynas â'i amcan budd cyhoeddus”;

ac mae adran 17(5) o'r Ddeddf yn darparu:

“Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusen ystyried unrhyw ganllawiau o'r fath wrth ymarfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau y mae'r canllawiau yn berthnasol iddynt.”

---

9 [2012] Ch 214 yn [88].

## Cwmpas amcan budd cyhoeddus y Comisiwn

30. Ym marn y Comisiwn, mae'n rhaid darllen adrannau 4(1), 14 ac 17 o Ddeddf Elusennau 2011 gyda'i gilydd. Mae'r diffiniad yn adran 4(1) o'r 'gofyniad budd cyhoeddus' yn ymwneud â'r hyn sy'n ofynnol i sefydlu diben elusennol. Ond mae adran 17(5) yn dangos bod y Senedd wedi bwriadu i ganllawiau budd cyhoeddus statudol y Comisiwn fod yn berthnasol wrth ymarfer pwerau a dyletswyddau ymddiriedolwyr elusen. Ni fyddai canllawiau wedi'u cyfyngu i hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gofyniad bod rhaid i ddiben elusennol fod er budd y cyhoedd yn berthnasol iawn i bwerau a dyletswyddau ymddiriedolwyr elusen, ar ôl ei sefydlu. Mae hyn yn dangos nad yw amcan budd cyhoeddus y Comisiwn wedi'i gyfyngu yn unig i hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gofyniad bod rhaid i ddiben elusennol fod er budd y cyhoedd ond yn hytrach ei fod yn ymestyn i hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddyletswydd ymddiriedolwyr elusen i hyrwyddo dibenion yr elusen er budd y cyhoedd, a'u hymrwymiaadau adrodd cysylltiedig<sup>10</sup>.

## Nid yw budd cyhoeddus yn gysyniad sefydlog

31. Nid yw'r cysyniad cyfreithiol o elusen, gan gynnwys y cysyniad o fudd cyhoeddus yn y gyfraith elusennau, yn sefydlog. Nid yw'r gyfraith elusennau wedi'i "rhewi rhywbryd yn y gorffennol"<sup>11</sup>; "rhaid cofio bod y cysyniad o'r hyn sydd a'r hyn nad yw er budd y cyhoedd (fel yr ystyrir gan gymdeithas yn gyffredinol, ac fel yr adlewyrchir yng nghydnabyddiaeth farnwrol o farn cymdeithas) yn newid dros amser. Byddwn yn gweld bod newid yng nghanfyddiadau cymdeithasol wedi, yn y gorffennol, arwain at newidiadau yn yr hyn sy'n cael ei ystyried er budd cymdeithas ac, felly, yr hyn y mae'n briodol i roi statws elusennol iddo."<sup>12</sup> Gall diben a arferai gael ei gydnabod fel un sydd er budd y cyhoedd beidio â chael ei gydnabod mwyach felly, a gall dibenion oedd heb gael eu cydnabod yn flaenorol fel rhai sydd er budd y cyhoedd gael eu cydnabod felly. Felly yn **National Anti-vivisection Society v IRC**<sup>13</sup> dywedodd yr Arglwydd Simonds:

"Os yw cymynnwr heddiw wedi gwneud cymynrodd i leddfu tloidi ac mae'n ofynnol i hyn gael ei gyflawni mewn un ffordd yn unig ac roedd y llys yn fodlon yn wyneb y dystiolaeth bod y ffordd yn niweidiol i'r gymuned, yn fy marn ni nid oedd yn rhodd elusennol, er dri chant o flynyddoedd yn ôl gallai'r llys o dderbyn tystiolaeth wahanol neu yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth fod wedi dod i gasgliad gwahanol."

<sup>10</sup> Mae adran 14, sy'n deddfu 'amcan budd cyhoeddus' y Comisiwn, yn cyfeirio at "**weithredu'r** gofyniad budd cyhoeddus" (pwyslais wedi'i ychwanegu). Gellir darllen y geiriau a bwysleiswyd fel eu bod yn cynnwys mwy na dim ond prawf ar gyfer creu diben elusennol dilys. Mae penderfyniad yr Uwch Dribiwnlys yn **R (Independent Schools Council) v Comisiwn Elusennau** [2012] Ch 214 yn mynd rhagddo ar y sail bod y Comisiwn wedi gweithredu o fewn ei bwerau i gyhoeddi canllawiau statudol ar weithgareddau yn ogystal â dibenion: gweler dyfarniad 13 Hydref 2011 paragraffau [224] - [235], dyfarniad 2 Rhagfyr 2011.

<sup>11</sup> **R (Independent Schools Council) v Comisiwn Elusennau** [2012] Ch 214 yn [14].

<sup>12</sup> **R (Independent Schools Council) v Comisiwn Elusennau** [2012] Ch 214 yn [23].

<sup>13</sup> [1947] AC 31 yn 69.

## Datganiad empeiraidd o'r gyfraith

32. Mae'r gyfraith mewn perthynas â budd cyhoeddus yn datblygu fesul achos. O ganlyniad:

“nid yw'r awdurdodau yn darparu datganiad cynhwysfawr o'r gofyniad budd cyhoeddus ond yn hytrach cyfres o enghreifftiau sy'n dangos pryd y mae neu pryd nad yw'r budd cyhoeddus wedi'i fodloni. Nid oes unrhyw egwyddor gyffredin, gydlynol wedi arwain penderfyniadau'r Llysoedd”<sup>14</sup>.

## Breintiau ariannol

33. Mae'r llysoedd wedi nodi bod elusennau'n mwynhau breintiau ariannol<sup>15</sup> ac awgrymwyd y dylai argaeledd breintiau ariannol fod yn berthnasol wrth ystyried a ddylid derbyn diben fel diben elusennol neu beidio<sup>16</sup>. Ymagwedd y Comisiwn at gydnabod dibenion elusennol newydd yw eu harchwilio yng nghydestun penderfyniadau'r llysoedd a'i benderfyniadau blaenorol ei hun. Mae braint ariannol sy'n deillio o statws elusennol yn fater ar gyfer deddfwriaeth gan y Senedd a gorfodaeth gan Gyllid a Thollau EM.

## Adnabod dibenion sefydliad

34. Gall yr offeryn sy'n ffurfio sefydliad nodi'n bendant ac yn glir y dibenion y ffurfiwyd y sefydliad ar ei gyfer. Os nad yw dibenion o'r fath wedi'u mynegi a'u datgan yn glir, efallai y bydd rhaid eu canfod drwy ddehongli'r offeryn sy'n ffurfio'r sefydliad<sup>17</sup>, neu o'r dystiolaeth o'r hyn y mae'r sefydliad wedi'i wneud<sup>18</sup>.

35. Yr egwyddorion sy'n gymwys i'r dehongliad o offeryn sy'n ymwneud ag elusen yw'r rhai sy'n gymwys yn gyffredinol i ddehongli dogfennau. Felly, caiff yr offeryn yr ystyr ag y byddai'n ei gyfleu i unigolyn rhesymol sydd â'r holl wybodaeth gefndir y byddai'n rhesymol i fod ar gael i'r gynulleidfa y mae'r offeryn yn cyfeirio ato<sup>19</sup>.

36. Os yw sefydliad wedi'i ffurfio gan offeryn gyda dibenion sydd wedi'u datgan yn glir, mae cymhellion a bwriadau'r sylfaenwyr yn amherthnasol i'r dehongliad o'r offeryn ac fel rheol ni fydd yr hyn y mae'r sefydliad wedi'i wneud ers iddo gael ei ffurfio yn dderbyniol fel cymorth i ganfod ar ei ddehongliad<sup>20</sup>.

14 **Attorney General v Comisiwn Elusennau** (The Poverty Reference) [2012] WTLR. 977 yn [34].

15 Gweler e.e. yr Arglwydd Wright yn **National Anti-vivisection Society v IRC** 1947] AC 31 yn 52.

16 Gweler yr Arglwydd Cross yn **Dingle v Turner** [1972] AC 601 yn 624D. Cytunodd yr Arglwydd Simon â'r farn honno (yn 614H), roedd Is-iarll Dilhorne, yr Arglwydd MacDermott a'r Arglwydd Hodson yn ei hamau (614A, E, D). Yn **R (Independent Schools Council) v Comisiwn Elusennau** [2012] Ch 214 yn [176] dywedodd yr Uwch Dribiwnlys ei fod yn rhannu'r amheuan a fynegwyd yn **Dingle v Turner**, ond nid oedd angen iddo ddatrys y mater.

17 Gweler er enghraifft **Royal College of Surgeons v National Westminster Bank Ltd** [1952] AC 631.

18 Gweler er enghraifft **Re Resch** [1969] 1 AC 514.

19 **Attorney General of Belize v Belize Telecom Ltd** [2009] 1 WLR 1988 yn [16] - [38]; **Cherry Tree Investments Ltd v Landmain Ltd** [2013] 1 WLR 481.

20 **James Miller and Partners Ltd v Whitworth Street Estates (Manchester) Ltd** [1970] AC 583.



37. Cafodd yr egwyddorion hyn fel y cânt eu cymwys yng nghyd-destun y gyfraith elusennau eu hymarfer yn **Helena Partnerships Ltd v HMRC**<sup>21</sup>, pan ddywedwyd ar dudalen 11:

“20. Yn unol â'r egwyddor hen sefydledig, mae cymhellion a bwriadau sylfaenwyr HHL yn amherthnasol i'r arfer o'i ffurfio. At hynny, yn gyffredinol nid yw'n berthnasol i ystyried tystiolaeth ynghylch gweithgareddau cwmni wrth ddehongli ei femorandwm ac erthyglau cymdeithasu, yn yr un ffordd ag na fyddai'n dderbyniol yn achos contract i weld sut mae'r partion wedi gweithredu o dan y contract hwnnw. Fodd bynnag, os oes amheuaeth neu amwyster ynghylch a yw amcanion sefydliad yn elusennol neu beidio, gall y llys ystyried gweithgareddau'r sefydliad. Gwneir hyn, nid at y diben o ddehongli ei gyfansoddiad, ond at y diben o gynorthwyo i asesu a fyddai gweithredu'r amcanion yn sicrhau canlyniad elusennol: gweler *Incorporated Society of Law Reporting for England and Wales v A-G* [1972] Pennod 73 yn p 99E. Ar ôl nodi bod cymhellion a bwriadau'r sylfaenwyr yn amherthnasol, dywedodd Buckley LJ:

'Ond er mwyn penderfynu a yw amcan, y mae ei gwmpas wedi cael ei ganfod drwy brosesau llunio, yn ddiben elusennol, gall fod angen ystyried tystiolaeth i ddarganfod canlyniadau dilyn yr amcan hwnnw. Byddai'n amlwg ar unwaith bod corff sydd wedi'i sefydlu i hyrwyddo crefydd Gristnogol wedi'i ffurfio at ddiben elusennol, ond yn achos corff wedi'i sefydlu i hyrwyddo athrawiaeth arbennig mae'n dra phosib y byddai angen ystyried tystiolaeth ynghylch natur yr athrawiaeth er mwyn penderfynu a fyddai ei hyrwyddo yn weithgaredd elusennol.' "

## Budd cyhoeddus yn rhan annatod o ddiben elusennol

38. Er mwyn i ddiben fod yn elusennol, mae'n rhaid iddo gael ei gynnwys o fewn un neu ragor o'r disgrifiadau o ddibenion yn adran 3(1) o Ddeddf Elusennau 2011 a bod er budd y cyhoedd. Fel o dan y gyfraith flaenorol, bydd rhai dibenion yn parhau i gael eu cynnwys o fewn y disgrifiadau o ddibenion yn adran 3(1) ond nid ydynt yn elusennol oherwydd nid ydynt er budd y cyhoedd, a dibenion sydd er budd y cyhoedd ond nid ydynt yn elusennol oherwydd nid ydynt wedi'u cynnwys o fewn unrhyw un o'r disgrifiadau o ddibenion yn adran 3(1)<sup>22</sup>.

## Dwy agwedd ar fudd cyhoeddus

39. Yn y gyfraith fodern, mae dwy agwedd i'r cysyniad o fudd cyhoeddus fel rhywbeth sy'n rhan annatod o ddiben elusennol, sef, er mwyn i ddiben fod yn elusennol:

- a. rhaid iddo fod yn fuddiol ac ni all unrhyw niwed neu golled sy'n deillio o'r diben fod yn fwy na'r budd ('yr agwedd budd'); a
- b. mae'n rhaid iddo roi budd i'r cyhoedd yn gyffredinol, neu ran ddigonol o'r cyhoedd ('yr agwedd budd cyhoeddus').

40. Yn ogystal, gall budd elusennol gynnig budd i unigolion neu endidau cyfreithiol eraill dim ond i'r graddau nad yw'n ddim mwy na budd damweiniol i hyrwyddo'r diben elusennol. Gall yr egwyddor hon gael ei hystyried yn rhan o un o'r ddwy agwedd a ddisgrifir uchod neu fel gofyniad ar wahân. Mae canllawiau budd cyhoeddus y Comisiwn yn delio ag ef fel rhan o'r ail agwedd.

21 Uwch Dribiwnlys (Treth a Siawnsri) [2011] STC 1307 [16-22]; wedi'i gadarnhau 2012] EWCA (Civ) 569, [2012] PTSR 1409.

22 Gweler **R (Independent Schools Council) v Comisiwn Elusennau** [2012] Ch 214 yn [79].

41. Mae'r ddwy agwedd ar fudd cyhoeddus sy'n rhan annatod o ddiben elusennol yn cael eu hystyried ar wahân yn yr adrannau canlynol. Fodd bynnag, dylid codio bod y ddwy agwedd yn orgyffwrdd: yn aml gall ffactor gael ei ystyried fel un sy'n cael effaith ar y ddwy agwedd.

## Yr agwedd 'budd'

### Rhaid i ddiben fod yn fuddiol

42. Er mwyn bod yn elusennol, mae'n rhaid i ddiben gael ei gynnwys o fewn un o'r disgrifiadau o ddibenion yn adran 3(1) o Ddeddf Elusennau 2011 a hefyd mae'n rhaid iddo fod yn fuddiol. Yn **National Anti-Vivisection Society v IRC**<sup>23</sup>, dywedodd yr Arglwydd Wright, gan gyfeirio at bedwar dosbarth yr Arglwydd Macnaghten:

"Ni fyddai hyd yn oed cymdeithasau sydd wedi'u cynnwys o dan dri phennawd cyntaf dosbarthiad yr Arglwydd Macnaghten â hawl i gael eu rhestru fel elusennau cyfreithiol pe byddai eu hamcanion yn cael eu hystyried yn rhai oedd heb fod er budd y cyhoedd. Os oes amcan crefyddol gan gymdeithas efallai na fydd yn bodloni'r prawf os yw'n anghyfreithlon a gall y prawf amrywio o genhedlaeth i genhedlaeth wrth i'r gyfraith fod yn fwy goddefgar. ... Ni all fod er budd y cyhoedd i ffafrio ymddiriedolaethau ar gyfer amcanion sy'n groes i'r gyfraith. Unwaith eto gall ymddiriedolaethau elusennau fel syniadau ac amodau economaidd a syniadau o newid gwasanaeth cymdeithasol beidio â chael eu hystyried fel rhai sydd er budd y gymuned, a gall ymddiriedolwyr sy'n hyrwyddo dysgu neu addysg fethu â chael lle fel elusennau, os ystyrir nad yw'r dysgu neu'r addysg o werth cyhoeddus. Mae'r prawf o fudd i'r gymuned yn mynd trwy'r cyfan o ddsbarthiad yr Arglwydd Macnaghten, ond yn achos y tri phennawd gyntaf, gellir cymryd hynny yn ganiataol ar yr olwg gyntaf oni bai bod y gwrthwyneb fel petai'n wir."

43. Yn y **Attorney-General v Comisiwn Elusennau** (The Poverty Reference)<sup>24</sup> roedd yr Uwch Dribiwnlys wedi crynhoi'r sefyllfa fel a ganlyn:

"mae'r gofyniad y dylai diben ymddiriedolaeth (e.e. lleddfu tlodi neu hyrwyddo addysg), o'i natur a heb ystyried y rhan o'r gymuned sydd i gael budd, yn fuddiol i'r gymuned ac o fewn, neu o fewn ysbryd y Rhagymadrodd, yn rhan annatod o'r hyn a olygwyd pan ddywedwyd bod diben er budd y cyhoedd."

44. Felly ni fyddai cynnal ysgol ar gyfer lladron pocedi, neu lyfrgell o bornograffi<sup>25</sup>, yn ddibenion elusennol. Hyd yn oed pe gellid disgrifio dibenion o'r fath fel rhai addysgol, ni fyddent er budd y cyhoedd<sup>26</sup>.

45. Yn gyffredinol, dylai'r budd i'r cyhoedd fod yn un diriaethol a gwrthrychol, er gall budd anniriaethol fod yn ddigonol os oes "cymeradwyaeth drwy ddealltwriaeth gyffredin barn oleuedig am y tro" bod budd i'r cyhoedd<sup>27</sup>.

23 [1948] AC 31 yn 42.

24 [2012] WTLR. 977 yn [32].

25 Rhoddir enghreifftiau yn **Re Macduff** [1896] 2 Ch. 451 yn 474 (Rigby LJ) ac yn **Re Pinion** [1965] Ch 85 yn 106 (Harman LJ).

26 Gweler **Attorney General v Comisiwn Elusennau** (The Poverty Reference) [2012] WTLR. 977at [66] - [67].

27 **National Anti-Vivisection Society v. IRC** [1948] AC 31 yn 49 (yr Arglwydd Wright).

## Sut mae budd yn cael ei sefydlu

46. Er mwyn i ddiben gael ei dderbyn fod diben buddiol i'r cyhoedd, mae'n rhaid i'r budd fod yn adnabyddadwy ac, mewn egwyddor, gallu cael ei brofi drwy dystiolaeth<sup>28</sup>: "...mae'r cwestiwn a yw neu a all rhodd fod er budd y cyhoedd yn gwestiwn i'w ateb gan y Llys drwy lunio barn yn seiliedig ar y dystiolaeth gerbron"<sup>29</sup>.

47. Gall y llys ystyried canlyniadau dilyn diben elusennol er mwyn penderfynu a yw er budd y cyhoedd neu beidio<sup>30</sup>.

48. Mae'r gofyniad am dystiolaeth wedi'i leddfu yn ymarferol gan sawl agwedd. Bydd y llys yn ystyried rhai buddion yn rhy amlwg i fynnu prawf ffurfiol:

".....ceir nifer o achosion sy'n ystyried y cwestiwn hwn sef a yw cymynrodd yn 'elusennol' neu'n 'anelusennol' os yw'r diben mor amlwg yn fuddiol i'r gymuned ac felly byddai gofyn am dystiolaeth yn hollol afresymol"<sup>31</sup>.

Bydd y llys hefyd yn ystyried y gyfraith statud fel yr hyn sy'n dangos beth mae'r Senedd yn ei hystyried sydd er budd y cyhoedd<sup>32</sup>, a bydd yn cymryd sylw barnwrol o rai ffeithiau amlwg<sup>33</sup>.

49. Mewn amgylchiadau priodol bydd y llys yn derbyn tystiolaeth arbenigol i'w gynorthwyo i benderfynu a yw diben er budd y cyhoedd neu beidio<sup>34</sup>.

50. Nid yw'r llysoedd wedi bod yn unffurf yn eu defnydd o iaith i ddisgrifio'r prawf ar gyfer penderfynu a yw diben er budd y cyhoedd neu beidio<sup>35</sup>. Mae'r Comisiwn yn ystyried bod ansawdd y dystiolaeth sydd ei angen i fodloni'r prawf hwn yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos arbennig.

28 **Scottish Burial Reform and Cremation Society Ltd v Glasgow Corporation** [1968] AC 138 yn 146E (yr Arglwydd Reid).

29 **Re Hummeltenberg** [1923] 1 Ch 237 yn 242, wedi'i gymeradwyo gan yr Arglwydd Wright yn **National Anti-vivisection Society v IRC** [1947] AC 31 yn 44.

30 Gweler e.e. **Incorporated Council of Law Reporting v Attorney General** [1972] Ch 73 yn 99 I(Buckley LJ); **Southwood v Attorney General** [2000] WTLR 1199.

31 **Gweler Shaw's Will Trusts** [1952] Ch. 163 yn 169 (Vaisey J).

32 Gweler er enghraifft **Scottish Burial Reform and Cremation Society Ltd v Glasgow Corporation** [1968] AC 138 yn 146F, 151B, 156E (darpariaeth statudol ar gyfer amlosgi yn berthnasol i benderfynu a oedd amlosgi er budd y cyhoedd).

33 **R (Independent Schools Council) v Comisiwn Elusennau** [2012] Ch 214 yn [70].

34 Gweler e.e. **Re Hopkins' Will Trusts** [1964] Ch 669 (a yw chwilio am "lawysgrifau Bacon-Shakespeare" er budd y cyhoedd); **Re Pinion** [1965] Ch 85 (a yw gwarchod ac arddangos casgliad o arteffactau er budd y cyhoedd).

35 Gweler e.e. **Re Hummeltenberg** [1923] 1 Ch 237 yn 242: "y cwestiwn a yw neu a all rhodd fod er budd y cyhoedd" (Russell J); **Re Grove-Grady** [1929] Ch 557 yn 582: "gall ymddiriedolaeth sydd er budd anifeiliaid fod yn ymddiriedolaeth elusennol ddilys os, drwy gyflawni'r ymddiriedolaeth, mae budd yn cael ei roi o reidrwydd i'r cyhoedd"; **Re Pinion** [1965] Ch 85 yn 110: "y cwestiwn hollbwysig yw a oedd y dystiolaeth wedi sefydlu'n ddigonol y byddai'r rhodd yn tueddu i hyrwyddo neu hybu addysg yn y maes perthnasol (Russell LJ).

## Nid yw credoau goddrychol rhoddwyr yn berthnasol

51. Nid yw cred rhoddwr bod y diben y mae'n rhoi rhodd ar ei gyfer er budd y cyhoedd yn berthnasol. Yn **Re Hummeltenberg**<sup>36</sup> barnodd Russell J nad oedd rhodd elusennol ar gyfer hyfforddi cyfryngwyr ysbrydegol yn elusennol ar y sail bod y dystiolaeth heb sefydlu bod ysbrydegaeth er budd y cyhoedd. Dywedodd<sup>37</sup>:

“Os yw cymynnwr, drwy ddatgan neu awgrymu ei farn bod ymddiriedolaeth yn fuddiol i'r cyhoedd, yn gallu sefydlu'r ffaith honno yn ddi-gwestiwn, gallai'r ymddiriedolaethau gael eu sefydlu ar gyfer hyrwyddo pob math o amcanion gwych (er yn anghyfreithlon), y gallai hyfforddi pwds sut i ddawnsio fod yn enghraifft gymedrol. Yn fy marn i mae'r cwestiwn a yw neu a all rhodd er budd y cyhoedd yn gwestiwn i'w ateb gan y Llys drwy lunio barn yn seiliedig ar y dystiolaeth gerbron”

## Budd a niwed

52. Wrth benderfynu a yw diben yn fuddiol i'r cyhoedd, bydd y llys yn pwysu a mesur unrhyw fudd a ddaw i'r cyhoedd drwy ddilyn y diben yn erbyn unrhyw niwed.

“Mae'n rhaid i'r llys gydbwysu'r budd a'r anfantais ym mhob achos lle mae niwed yn cael ei honni ac wedi'i gefnogi gan dystiolaeth. Ond dylid rhoi pwys mawr ar ddiben a fyddai, fel arfer, yn elusennol; cyn y gellir rhoi llawer o bwysau i'r anfanteision honedig, rhaid iddynt gael eu harddangos yn glir<sup>38</sup>.”

53. Felly, yn **National Anti-vivisection Society v IRC**<sup>39</sup> penderfynodd Ty'r Arglwyddi fod y cwestiwn a oedd hyrwyddo newid yn y gyfraith i ddiddymu bywddyraniad yn ddiben elusennol neu beidio heb ei benderfynu gan y buddion moesol yr haerir y byddai'n deillio o roi'r gorau i fywddyraniad, ond roedd angen cymharu'r buddion hynny â'r buddion ymarferol y profwyd eu bod yn deillio o ymarfer bywddyraniad. Dywedodd yr Arglwydd Wright<sup>40</sup>:

“Nid oes, hyd y gwelaf, unrhyw anhawster wrth bwysu a mesur gwerth perthynol yr hyn yr oedd yn ei alw'n fuddion materol bywddyraniad yn erbyn y budd moesol yr honnir neu y cymerir a allai ddeillio o lwyddiant prosiect yr apeliwr. Mewn unrhyw achos mae'n rhaid barnu'r sefyllfa gyfan. Mae'n fympwyol ac yn afreal i geisio rhannu'r broblem i'r hyn a ddywedir sy'n uniongyrchol a'r hyn a ddywedir sy'n ganlyniadol. Mae'n rhaid i gymhlethdod cyfan amgylchiadau dilynol o unrhyw fath gael ei ragweld neu ei ddychmygu er mwyn amcangyfrif a fyddai'r newid a hyrwyddir er budd y gymuned neu beidio.”

## Dibenion gwleidyddol

54. Hyd yn oed os yw'n ymddangos ei fod wedi'i gynnwys o fewn adran 3(1) o Ddeddf Elusennau 2011, nid yw ymddiriedolaeth sydd â diben gwleidyddol yn cael ei hystyried er budd y cyhoedd. Yn y cydestun hwn, mae ymddiriedolaethau sydd â dibenion gwleidyddol yn cynnwys ymddiriedolaeth lle mae'r diben uniongyrchol a'r prif ddiben yn (i) hyrwyddo buddiannau plaid wleidyddol arbennig; neu (ii) sicrhau newidiadau yng nghyfreithiau'r wlad hon; neu (iii) sicrhau newidiadau yng nghyfreithiau gwlad dramor; neu (iv) sicrhau gwrthdroi polisi'r llywodraeth neu benderfyniadau arbennig awdurdodau llywodraethol y wlad hon; neu (v) sicrhau gwrthdroi polisi'r llywodraeth neu benderfyniadau'r awdurdodau llywodraethol mewn gwlad dramor<sup>41</sup>.

36 [1923] 1 Ch 237.

37 Yn 242, wedi'i gymeradwyo gan yr Arglwydd Wright yn **National Anti-vivisection Society v IRC** [1947] AC 31 yn 44.

38 **R (Independent Schools Council) v Comisiwn Elusennau** [2012] Ch 214 yn [106].

39 [1948] AC 31.

40 Yn 47.

41 **McGovern v Attorney General** [1984] Ch 321 yn enwedig yn 340B.

## Rhai materion heb fod yn draddodadwy

55. Os yw'r llys yn barnu na all budd cyhoeddus diben gael ei brofi un ffordd neu'r llall, ni fydd y llys yn ei gydnabod fel diben elusennol<sup>42</sup>.

56. Felly yn **Gilmour v Coats**<sup>43</sup> penderfynodd Tŷ'r Arglwyddi nad oedd ymddiriedolaeth at y dibenion o urdd grefyddol glwystredig yn elusennol. Barnwyd nad oedd budd cyhoeddus wedi'i sefydlu gan dystiolaeth bod dilynwyr y ffydd y tu allan i'r urdd yn credu yng ngwerth gweddïau aelodau'r urdd, wedi'u haddysgu gan wybodaeth o fodolaeth a gwaith yr urdd, ac yn gallu ymuno â'r urdd. Dywedodd yr Arglwydd Simonds<sup>44</sup>:

“ ... ydw i'n cadarnhau neu'n gwadu, ydw i'n credu neu ddim yn credu, beth sydd gan hynny i'w wneud â'r prawf y mae'r llys yn mynnu ei gael bod diben arbennig yn bodloni'r prawf o fudd i'r gymuned? Mae'n amlwg yn rhywbeth na all gael ei brofi. Ond, wedi dweud hynny, nid yw hyn yn fater o brawf ond o gred: oherwydd mae gwerth gweddïo eiriolaethol yn ddaliad o'r ffydd Gatholig, felly mae gweddïo o'r fath yn cynnig budd i'r gymuned. Ond mae'n rhaid i mi aros gyda'r gair “felly”. Wrth gwrs, mae'n wir bod hyrwyddo crefydd, yn gyffredinol, yn un o'r penawdau elusen. Ond nid yw'n dilyn ymlaen o hynny bod rhaid i'r llys dderbyn fel rhywbeth wedi'i brofi beth bynnag y mae eglwys arbennig yn ei gredu. Mae'n rhaid i'r ffyddlon gofleidio eu ffydd gan gredu ble na allant brofi: gall y llys weithredu ar brawf yn unig. Nid yw rhodd i ddwy neu ddeg neu gant o leianod clwystredig yn y gred y bydd eu gweddïau yn rhoi budd i'r byd yn gyffredinol yn arwain at ddilysrwydd drwy'r gred honno yn unig yn fwy nag yw cred unrhyw roddwr arall ar gyfer unrhyw ddiben arall.”

57. Yn yr un modd, fel y nodwyd eisoes, nid yw diben gwleidyddol yn elusennol. Un rheswm am hyn yw oherwydd nid oes gan y llys y gallu i benderfynu a yw newidiadau yn y gyfraith neu'r polisi yn fuddiol, ac mewn unrhyw achos mae'n ei ystyried yn swyddogaeth y Senedd neu'r weithrediaeth i benderfynu ar faterion o'r fath<sup>45</sup>.

## Yr agwedd 'cyhoeddus'

### Mae'n rhaid i'r budd fod i'r cyhoedd yn gyffredinol, neu ran ddigonol o'r cyhoedd

58. Er mwyn bod yn elusennol, mae'n rhaid i ddiben fod er budd y cyhoedd yn gyffredinol neu ran ddigonol o'r cyhoedd. Mae'r gair 'cymuned' yn cael ei ddefnyddio'n aml fel dewis arall i'r gair 'cyhoeddus'.

59. Cafodd yr angen am fudd cyhoeddus yn yr ystyr hon ei bwysleisio gan yr Arglwydd Wrenbury yn **Verge v Somerville**<sup>46</sup>.

“Er mwyn pennu a yw rhodd yn ymddiriedolaeth elusennol ddilys ac felly osgoi bod yn annilys ar sail bytholrwydd, rhaid ymholi yn gyntaf a yw'n gyhoeddus - a yw er budd y gymuned neu ddsbarth digon pwysig o'r gymuned. Gall trigolion plwyf neu dref, neu unrhyw ddsbarth arbennig o drigolion o'r fath, er enghraifft, fod yn wrthrychau rhodd o'r fath, ond ni all unigolion preifat, neu gorff newidiol o unigolion preifat, fod yn wrthrychau budd o'r fath.”

42 **McGovern v Attorney General** [1984] Ch 321 yn 334A.

43 [1949] AC 426.

44 Yn 446.

45 **National Anti-vivisection Society v IRC** [1948] AC 31; **McGovern v AG** [1982] Ch 321; **Southwood v Attorney General** [2000] WTLR 1199; **R (Independent Schools Council) v Comisiwn Elusennau** [2012] Ch 214 yn [109] - [110].

46 [1924] AC 496 yn 499.

## Cymhwysor rheol bod rhaid i ddiben fod er budd y cyhoedd yn gyffredinol neu ran ddigonol o'r cyhoedd er mwyn bod yn elusennol

60. Wrth gymhwysor rheol bod rhaid i ddiben fod er budd y cyhoedd yn gyffredinol neu ran ddigonol o'r cyhoedd er mwyn bod yn elusennol, rhaid nodi yn gyntaf y dosbarth o unigolion y mae'r diben yn rhoi budd iddynt yn bennaf. Os yw'r diben yn rhoi budd i'r cyhoedd yn gyffredinol yn bennaf, mae'r rheol wedi'i bodloni. Os yw'r diben yn rhoi budd i unigolion o ddisgrifiad arbennig yn bennaf, rhaid gofyn y cwestiwn a yw'r buddiolwyr posibl yn rhan ddigonol o'r cyhoedd. Os ydynt, mae'r diben yn bodloni agwedd 'cyhoeddus' y gofyniad, sef er mwyn bod yn elusennol rhaid i'r diben fod er budd y cyhoedd.

61. I'r gwrthwynebu, os nad yw buddiolwyr posibl diben sy'n rhoi budd i unigolion o ddisgrifiad arbennig yn bennaf yn rhan ddigonol o'r cyhoedd, gall y budd ehangach y gallai'r cyhoedd ei gael drwy hyrwyddo'r diben olygu nad yw'n elusennol:

“ ... nid yw ymddiriedolaeth wedi'i sefydlu gan dad ar gyfer addysg ei fab yn elusen. Nid yw'r elfen cyhoeddus wedi'i darparu gan y ffaith y gall pawb gael budd o addysg ei fab<sup>47</sup>.”

62. Gall diben fod er budd y cyhoedd yn gyffredinol neu ran ddigonol o'r cyhoedd hyd yn oed os yw nifer gyfyngedig o bobl yn unig yn gallu manteisio ar ei fuddion, neu'n debygol o wneud hynny<sup>48</sup>.

63. Yn **Dingle v Turner**<sup>49</sup>, dywedodd yr Arglwydd Cross:

“Y gwir amdani yw bod y cwestiwn a yw buddiolwyr posibl ymddiriedolaeth yn ffurfio rhan o'r cyhoedd neu beidio yn gwestiwn o raddfa ac ni all ateb ar ei ben ei hun y cwestiwn a yw'r ymddiriedolaeth yn elusen. Mae llawer yn dibynnu ar ddiben yr ymddiriedolaeth”.

## Y gwahaniaeth rhwng y disgrifiadau o ddibenion

64. At ddibenion y rheol sy'n datgan er mwyn bod yn elusennol mae'n rhaid i ddiben fod er budd y cyhoedd yn gyffredinol neu ran ddigonol o'r cyhoedd, mae'r mesur o'r hyn sy'n rhan ddigonol o'r cyhoedd yn amrywio rhwng disgrifiadau o ddibenion yn adran 3(1) o Ddeddf Elusennau 2011. Yn **Gilmour v Coats**<sup>50</sup> dywedodd yr Arglwydd Simonds:

“Mae'n ddywediad cyffredin mai bywyd yw'r gyfraith, nid rhesymeg. Ond yn fy marn i mae'n amlwg yn wir o'r gyfraith elusennau ei bod wedi cael ei hadeiladu'n empeiraidd ac nid yn rhesymegol. Felly, ni fyddai'n syndod gweld, er bod rhaid i ryw elfen o fudd cyhoeddus fod yn bresennol ym mhob categori o elusen gyfreithiol, nid yw'r llys wedi mabwysiadu'r un mesur o ran categorïau gwahanol, ond ei fod wedi derbyn un safon ar gyfer y rhoddion hynny yr honnir eu bod yn hyrwyddo addysg ac un arall ar gyfer y rhai yr honnir eu bod yn hyrwyddo crefydd, a gall fod yn lleddfu tlodi mewn agwedd arall. I ddadlau drwy gyfrwng cyfresymiad neu gyfatebiaeth o'r categori addysg i grefydd yn anwybyddu proses hanesyddol y gyfraith.”

47 **Oppenheim v Tobacco Securities Trust Co Ltd** [1951] AC 297 yn 306 (yr Arglwydd Simonds).

48 Gweler **IRC v Baddeley** [1955] AC 572 yn 590 (yr Arglwydd Simonds).

49 **Dingle v Turner** [1972] AC 601 yn 624.

50 [1949] AC 426 yn 449.

65. Yn yr un modd yn **IRC v Baddeley**<sup>51</sup> dywedodd yr Arglwydd Somervell:

“Ni allaf dderbyn yr egwyddor a gyflwynwyd gan ymatebwyr bod rhaid i ran o’r cyhoedd sy’n ddigonol i gefnogi ymddiriedolaeth ddilys mewn un categori fod fel mater o gyfraith yn ddigonol i gefnogi ymddiriedolaeth mewn unrhyw gategori arall. Mae anawsterau yn debygol o godi os ydych yn ceisio ystyried y dosbarth ar wahân i natur arbennig y diben elusennol. Yn fy marn ni, maent yn rhyng-ddibyynnol. Mae’n dra phosibl bod ymddiriedolaeth ddilys at y diben o hyrwyddo crefydd sy’n rhoi budd i ddosbarth bach iawn. Ni fyddai’n dilyn y byddai maes chwarae at ddefnydd yr un dosbarth yn unig yn elusen ddilys....”

## Atal neu lleddfu tlodi

66. Gall diben sy’n lleddfu tlodi (yn wahanol i ddibenion eraill) fod yn elusennol hyd yn oed os yw’r buddiolwyr posibl wedi’u cysylltu drwy ddisgyniad o un unigolyn, drwy gyflogaeth gan un cyflogwr neu drwy aelodaeth o sefydliad anghorfforedig<sup>52</sup>. Mewn achosion a ragflaenodd Deddf Elusennau 2006, dywedwyd weithiau nad oedd unrhyw ofyniad, o ganlyniad, i ddiben o’r fath fod er budd y cyhoedd<sup>53</sup>. Erbyn hyn sefydlwyd bod y gofyniad yn Neddf Elusennau 2006, wedi’i ailddeddfu yn Neddf Elusennau 2011, i ddiben o’r fath fod er budd y cyhoedd wedi’i fodloni os yw’r diben yn bodloni gofynion arbennig y gyfraith fel yr oedd cyn i Ddeddf Elusennau 2006 ddod i rym<sup>54</sup>.

67. Mae’n rhaid i fuddiolwyr posibl diben sy’n lleddfu tlodi fod yn ddosbarth, yn wahanol i unigolion:

“ ... y cwestiwn go iawn ym mhob achos [yw] a oedd y rhodd er lleddfu tlodi ymysg dosbarth o bobl, neu yn hytrach....disgrifiad arbennig o’r tlawd, neu dim ond yn rhodd i unigolion, er mai lleddfu tlodi ymysg yr unigolion hynny oedd cymhelliad y rhodd...”<sup>55</sup>

68. Nid yw diben atal tlodi yn debygol o fod yn elusennol oni bai bod ei fuddiolwyr posibl yn rhan o’r cyhoedd neu’r cyhoedd<sup>56</sup>.

## Dosbarth mympwyol

69. Mae’n debygol y byddai diben ar gyfer buddiolwyr posibl a ddiffinnir mewn ffordd sydd, o’i gysylltu â’r diben, yn fympwyol heb gael ei ystyried yn elusennol, ar y sail nad yw’r buddiolwyr posibl yn rhan o’r cyhoedd<sup>57</sup>.

51 [1955] AC 572 yn 615.

52 **Attorney General v Comisiwn Elusennau** (The Poverty Reference) [2012] WTLR 977.

53 Gweler e.e. **McGovern v Attorney General** [1984] Ch 321 at 333.

54 **Attorney General v Comisiwn Elusennau** (The Poverty Reference) [2012] WTLR 977.

55 **Re Scarisbrick** [[1951] Ch 622 yn 655; **Dingle v Turner** 1972] AC 601 at 617D, 623C; **Attorney General v Comisiwn Elusennau** (The Poverty Reference) [2012] WTLR. 977yn [57].

56 **Attorney General v Comisiwn Elusennau** (The Poverty Reference) [2012] WTLR 977 yn [69] - [82].

57 **R (Independent Schools Council) v Comisiwn Elusennau** [2012] Ch 214, barn atodol yn [9].

## Dosbarth buddiol wedi'i ddiffinio gan ardal ddaeryddol

70. Fel rheol bydd trigolion ardal ddiffiniedig yn cael ei ystyried yn rhan ddigonol o'r cyhoedd, oni bai bod yr ardal efallai yn fach iawn. Gall dosbarth o drigolion unrhyw ardal hefyd gael ei ystyried yn rhan ddigonol o'r cyhoedd. Yn **Verge v Somerville**<sup>58</sup> dywedodd yr Arglwydd Wrenbury:

“Er mwyn penderfynu a yw rhodd yn ymddiriedolaeth elusennol ddilys ac felly osgoi bod yn annilys ar sail bytholrwydd, rhaid ymholi yn gyntaf a yw'n gyhoeddus - a yw er budd y gymuned neu ddosbarth digon pwysig o'r gymuned. Gall trigolion plwyf neu dref, neu unrhyw ddosbarth arbennig o drigolion o'r fath, er enghraifft, fod yn wrthrychau rhodd o'r fath, ond ni all unigolion, neu gorff newidiol o unigolion preifat fod yn wrthrychau rhodd o'r fath.”

## Dosbarthiadau wedi'u cysylltu drwy gysylltiad personol

71. Penderfynwyd nad oedd cronfa a gafodd ei chasglu at y diben o leihau gofid ymysg dioddefwyr cyrchau awyr yr oedd ei buddiolwyr posibl wedi'u cysylltu gan gyflogaeth gan un cyflogwr yn elusennol. Un sail ar gyfer y penderfyniad oedd nid oedd buddiolwyr posibl, mewn cyflogaeth gyffredin a heb eu cyfyngu i'r tlawd, yn rhan o'r cyhoedd<sup>59</sup>. Mae Tŷ'r Arglwyddi wedi cymryd nad yw pob diben sydd wedi'i gynnwys o fewn pedwerydd pennawd yr Arglwydd Macnaghten yn elusennol os yw'r buddiolwyr posibl wedi'u cysylltu drwy ddisgyniad o un neu ragor o unigolion, neu gan gyflogaeth neu gyn gyflogaeth gan un neu ragor o gyflogwyr<sup>60</sup>.

## Budd i'r ddwy ochr

72. “Mae'r elfen o anhunanoldeb yn gydnabyddedig fel agwedd ar elusen, ac mae'n agwedd bwysig”<sup>61</sup>. Gall cymdeithas a ffurfiwyd i ddarparu buddion i'w haelodau (heblaw dim ond i leddfau tlodi) gael diben sydd er budd cyhoeddus neu beidio. Os mai prif ddiben cymdeithas yw hunangymorth, nid yw ei haelodau yn cael eu hystyried yn rhan ddigonol o'r cyhoedd (er gwaethaf eu nifer) ac nid yw ei diben er budd y cyhoedd<sup>62</sup>. Ond os yw prif ddiben y gymdeithas yn allgarol, gall ei ddiben fod er budd y cyhoedd, hyd yn oed os yw'r buddion ar gael i aelodau'r gymdeithas neu'r tanysgrifwyr yn unig<sup>63</sup>.

## Elusennau adloniadol

73. Mae adran 5 o Ddeddf Elusennau 2011 yn gwneud darpariaethau arbennig sy'n egluro pryd y mae'n elusennol i ddarparu neu gynorthwyo i ddarparu cyfleusterau ar gyfer adloniant neu alwedigaeth amser hamdden arall. Nid yw'r darpariaethau hyn i'w trin fel rhai sy'n tynnu oddi wrth y gofyniad budd cyhoeddus<sup>64</sup>.

58 [1924] AC 496 yn 499.

59 **Re Hobourn Aero Components Ltd Air Raid Distress Fund** [1946] Ch 194 yn 206, 207 - 9.

60 Gweler **Dingle v Turner** [1972] AC 601 yn 625D.

61 **Incorporated Council of Law Reporting v Attorney General** [1972] Ch 73 yn 86 (Russell LJ).

62 Gweler e.e. **Waterson v Hendon BC** [1959] 1 WLR 985 (cymdeithas gyfeillgar gyda 400,000 a aelodau).

63 **Re Hobourn Aero Components Ltd Air Raid Distress Fund** [1946] Ch 194 yn 202 - yr Arglwydd Greene MR.

64 Adran 5 (5).



## Dibenion y tu allan i Gymru a Lloegr

74. Gall diben fod yn elusennol hyd yn oed os yw ei holl fuddiolwyr posibl y tu allan i Gymru a Lloegr. Nid yw'r llysoedd wedi egluro a yw diben o'r fath yn elusennol oherwydd mae diben elusennol wedi'i gyflawni y tu allan i Gymru a Lloegr wedi cael ei gyflawni er budd y cyhoedd yng Nghymru a Lloegr, neu oherwydd bod y buddiolwyr posibl, er gwaetha'r ffaith eu bod y tu allan i Gymru a Lloegr, yn cael eu cyfrif fel y cyhoedd yn gyffredinol neu ran ddigonol o'r cyhoedd<sup>65</sup>. Ymagwedd y Comisiwn yw ystyried a fyddai'r diben yn elusennol pe byddai wedi'i gyfyngu i Gymru a Lloegr. Os yw, bydd y Comisiwn yn ei gydnabod yn ddiben elusennol oni bai y byddai'n groes i bolisi cyhoeddus y Deyrnas Unedig i wneud hynny<sup>66</sup>.

## Dibenion sy'n gwahaniaethu

75. Os yw offeryn elusennol yn cynnig modd darparu buddion i bobl o ddsbarth wedi'i ddiffinio drwy gyfeirio at liw, mae'n cael effaith ar ei holl ddibenion fel pe bai'n galluogi darparu buddion o'r fath:

- a. i unigolion o'r dosbarth sy'n cael ei greu os yw'r cyfeiriad at liw yn cael ei anwybyddu, neu
- b. os yw'r dosbarth gwreiddiol wedi'i ddiffinio drwy gyfeirio at liw yn unig, at bobl yn gyffredinol<sup>67</sup>.

76. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mewn rhai amgylchiadau gall fod yn anghyfreithlon i sefydlu elusen at ddibenion sy'n gwahaniaethu ar sail nodwedd warchoddedig. Os nad yw'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i sefydlu elusen at ddibenion sy'n gwahaniaethu ar sail nodwedd warchoddedig, mae'r Comisiwn o'r farn ei fod yn debygol y byddai diben na ellid ei weinyddu yn unol â darpariaethau'r Ddeddf yn cael ei ystyried er budd y cyhoedd, ac felly heb fod yn ddiben elusennol. Felly, yn **Catholic Care (Diocese of Leeds) v Comisiwn Elusennau** dywedodd Briggs J (wrth ystyried deddfwriaeth yn rhagflaenu Deddf Cydraddoldeb 2010)<sup>68</sup>:

“Bydd sefydliad sy'n cynnig cyflawni diben er budd y cyhoedd yn gymwys i fod yn elusen dim ond, o ystyried unrhyw ddiffyg budd sy'n codi o'i modus operandi, fod ei weithgareddau er hynny yn esgor ar fudd cyhoeddus net....Felly, gallai elusen sy'n cynnig cymhwyso triniaeth wahaniaethol ar sail cyfeiriadedd rhywiol heblaw fel dull cymesur o gyflawni nod cyfreithlon fethu â chael statws elusennol (neu ei gollu, os oedd yn ceisio dilyn gweithgareddau o'r fath drwy ddiwygio ei hamcanion).”

## Ni all diben elusennol eithrio'r tlawd

77. Nid yw'n ofyniad i ddiben elusennol gael buddiolwyr posibl sydd wedi'u cyfyngu i'r tlawd:

“...gall ymddiriedolaeth elusennol ddilys fodoli er gwaetha'r ffaith wrth ei gweinyddu nid yw'r budd wedi'i gyfyngu gan y rhoddwr i'r tlawd gan eithrio'r cyfoethog.”<sup>69</sup>

78. Ond nid oes modd creu diben elusennol y mae ei fuddiolwyr posibl yn eithrio'r tlawd:

“ni all ymddiriedolwyr sy'n eithrio'r tlawd rhag cael budd fod yn elusen.”<sup>70</sup>

65 Gweler **Camille & Henry Dreyfus Foundation Inc v IRC** [1954] Ch 672 yn 684 - 5, 704 - 5.

66 Penderfyniadau'r Comisiynwyr Elusennau 1993 Cyf. 1 tudalennau16 -17. Cymeradwywyd yr ymagwedd hon yn **Manoogian v Sonsino** [2002] EWHC 1304 (Ch) yn [33] - [38].

67 Deddf Cydraddoldeb 2010 adran 193 (4).

68 [2010] 4 All ER 1041 yn [97].

69 **Verge v Somerville** [1924] AC 496 yn 504 (yr Arglwydd Wrenbury).

70 **R (Independent Schools Council) v Comisiwn Elusennau** [2012] Ch 214 yn [178].

79. Nid yw'n glir a yw'r rheol na all diben elusennol eithrio'r tlawd yn rheol ar wahân, neu'n gymhwysiad arbennig o'r rheol sy'n datgan er mwyn bod yn elusennol mae'n rhaid i ddiben fod er budd y cyhoedd yn gyffredinol neu ran ddigonol o'r cyhoedd<sup>71</sup>. Mae canllawiau budd cyhoeddus y Comisiwn yn mabwysiadu'r ail ymagwedd.

80. Mae'r gyfraith elusennau yn cydnabod y 'tlawd' fel term perthynol sy'n dibynnu ar yr amgylchiadau mewn achosion unigol. Fodd bynnag, nid yw'r 'tlawd' yn golygu dim ond y rhai mwyaf tlawd mewn cymdeithas, a gall gynnwys pobl o 'incwm cymedrol'<sup>72</sup>.

## Buddion personol damweiniol

81. I fod yn elusennol, gall diben roi buddion personol yn unig (ar unigolion ac endidau cyfreithiol eraill) i'r graddau ag y mae'n ddamweiniol i hyrwyddo'r diben elusennol.

## Gall diben elusennol roi budd i unigolion

82. Er bod ymddiriedolaeth elusennol yn ymddiriedolaeth ar gyfer dibenion yn hytrach nag ar gyfer unigolion, gall diben elusennol roi buddion personol (ar unigolion neu endidau cyfreithiol eraill). Mae elusen sy'n lleddfu tlodi yn rhoi budd i'r rhai y maent yn lleddfu eu tlodi, mae disgyblion ysgol elusennol yn cael eu haddysgu, ac mae cleifion ysbyty elusennol yn cael buddion meddygol.

83. Os yw'r buddion hyn yn ddamweiniol i hyrwyddo diben elusennol nid ydynt yn atal y diben rhag bod yn elusennol. Yn **London Hospital Medical College v IRC**<sup>73</sup> dywedodd Brightman J:

“Byddwn i'n tybio bod y rhan fwyaf o ysgolion addysg yn rhoi budd personol i'r ysgolheigion unigol sy'n cael eu derbyn i'r ysgol. Nid yw X, ysgolhaig unigol, yn wrthrych yr elusen fel y cyfryw. Ond mae'r ysgol addysg y mae X yn ei mynychu yn elusennol os yw'r ysgol yn bodoli er budd y gymuned. Mae'r ffaith bod X yn cael budd personol yn ddamweiniol i weithredu dibenion yr elusen.”

84. Felly mae'r buddion a gaiff aelodau undeb myfyrwyr wedi cael eu hystyried yn ddamweiniol i ddibenion addysgol elusennol coleg<sup>74</sup> ac mae buddion cymdeithasol aelodaeth o synagog wedi cael eu hystyried yn ddamweiniol i'w ddibenion crefyddol elusennol<sup>75</sup>.

71 **R (Independent Schools Council) v Comisiwn Elusennau** [2012] Ch 214 yn [112].

72 Gweler e.e. **Re Clarke** [1923] 2 Ch 407 (rhodd i sefydliadau sy'n darparu ar gyfer “pobl o incwm cymedrol”); **Re De Carteret** [1933] Ch 103 (rhodd i wragedd gweddw neu hen ferched “na fydd eu hincwm fel arall yn llai nag wyth deg neu'n fwy na chant punt ac ugain y flwyddyn”); **Re Adams** [1968] Ch 80 (rhodd i waddoli “gwelâu ar gyfer cleifion sy'n talu”); **Re Resch** [1969] 1 AC 514 (ysbyty preifat elusennol: gweler yn enwedig tudalennau 543 - 5 “byddai'n gasgliad anghywir ... y byddai ymddiriedolaeth sy'n darparu cyfleusterau meddygol o reidrwydd yn methu â bod yn elusennol dim ond oherwydd mai pobl gyda rhyw fath o incwm fyddai'n gallu eu defnyddio oherwydd y gost ... dengys y dystiolaeth na ellir dweud bod y tlawd wedi'i eithrio”); **Joseph Rowntree Memorial Trust Housing Association Ltd v Attorney General** [1983] Ch 159 (cynlluniau ar gyfer darparu prydlesi tai i'r henoed sy'n gallu gwneud cyfraniad cyfalaf). Trafodir y ddau achos olaf hyn yn **R (Independent Schools Council) v Comisiwn Elusennau** [2012] Ch 214 yn [158] - [174].

73 [1976] 1 WLR 613 yn 620E.

74 **London Hospital Medical College v IRC** [1976] 1 WLR 613.

75 **Neville Estates v Madden** [1962] Ch 832 at 851 - 2.

85. Gall diben elusennol roi buddion i bobl sydd heb fod ag angen elusennol, os yw gwneud hynny yn ddamweiniol i hyrwyddo diben elusennol. Felly, mewn achos eithafol, penderfynwyd bod darparu cinio blynyddol i henaduriaid yn ddamweiniol i ddibenion elusennol ymddiriedolaeth er budd ysbytai orthopedig, oherwydd roedd yn hyrwyddo gweinyddiaeth effeithiol yr ymddiriedolaeth<sup>76</sup>; a phenderfynwyd bod darparu cartref gofal i nyrsys yn elusennol oherwydd ei fod yn hyrwyddo effeithlonrwydd ysbyty, ac felly yn hybu iechyd<sup>77</sup>.

## Ni all buddion i unigolion fod yn fwy na buddion damweiniol

86. Nid yw diben yn elusennol os yw'r buddion y gall eu rhoi i unigolion (neu endidau cyfreithiol eraill) yn fwy nag yn ddamweiniol i hyrwyddo'r diben elusennol<sup>78</sup>. Mae penderfynu a yw hyn yn wir mewn unrhyw achos arbennig yn fater o raddfa<sup>79</sup>.

## Budd cyhoeddus a rhedeg elusen

### Dyletswyddau a phwerau ymddiriedolwyr elusen

87. Nid oes unrhyw un ffynhonnell gyfreithiol ar gyfer dyletswyddau a phwerau ymddiriedolwyr elusen. Mae'r ffynonellau y maent yn deillio ohonynt yn cynnwys:

- a. dogfen lywodraethol yr elusen
- b. rheolau cyfraith gwlad ac ecwiti sy'n rheoleiddio gweithgareddau ymddiriedolwyr a phobl ymddiriedol eraill
- c. yn achos elusennau anghorfforedig, y dyletswyddau a'r pwerau statudol sy'n cael eu rhoi i ymddiriedolwyr gan statudau sy'n ymwneud ag ymddiriedolaethau
- ch. yn achos cwmnïau, y dyletswyddau a'r pwerau statudol sy'n cael eu rhoi i gyfarwyddwyr cwmnïau gan Ddeddf Cwmnïau 2006
- d. yn achos sefydliadau corfforedig elusennol, y pwerau a'r dyletswyddau statudol sy'n cael eu rhoi i ymddiriedolwyr gan Ddeddf Elusennau 2011 a'r offerynnau statudol sy'n cael eu gwneud oddi dani
- dd. y dyletswyddau a'r pwerau sy'n cael eu rhoi i ymddiriedolwyr elusen gan Ddeddf Elusennau 2011

88. Gall cyfansoddiad elusen roi dyletswydd benodol ar yr ymddiriedolwyr elusen i hyrwyddo ei dibenion. Os nad yw'n gwneud hynny, bydd dyletswydd o'r fath wedi'i hawgrymu yn gyffredinol. Yn achos cwmni elusennol wedi'i reoleiddio gan Ddeddf Cwmnïau 2006, mae'r dyletswyddau statudol a osodir ar gyfarwyddiadau cwmni yn cynnwys dyletswydd i weithredu mewn ffordd a fyddai'n fwyaf tebygol o gyflawni dibenion y cwmni, mewn ewyllys da<sup>80</sup>.

<sup>76</sup> **Re Coxen** [1948] Ch 747.

<sup>77</sup> **Re White's Will Trusts** [1961] 1 All ER 528. Nid oedd darparu buddion i nyrsys, oni bai er mwyn lleddfu tlodi, yn gallu bod yn elusennol ei hun oherwydd roeddent mewn cyflogaeth gyffredin: **Re Drummond** [1914] Ch 290.

<sup>78</sup> **Incorporated Council for Law Reporting for England & Wales v A-G** [1972] Ch 73 at [87].

<sup>79</sup> **Inland Revenue Commissioners v Glasgow Police Athletics Association** [1953] AC 380.

<sup>80</sup> Ddeddf Cwmnïau 2006 s 172.

89. Mae hanfod yr egwyddorion hyn wedi'i gynnwys yn y datganiad canlynol gan Nicholls J yn **Harries v Church Commissioners**<sup>81</sup>:

“Mae’n wirebol bod ymddiriedolwyr elusen, yn debyg i bob ymddiriedolwr arall, yn ymwneud â hyrwyddo dibenion yr ymddiriedolaeth y maent wedi derbyn swydd ymddiriedolwr ar ei chyfer. Dyna yw eu dyletswydd. Er mwyn eu galluogi i gyflawni’r ddyletswydd honno yn well, mae pwerau wedi’u breinio yn yr ymddiriedolwyr. Rhaid arfer y pwerau hyn at y diben y cawsant eu rhoi ar eu cyfer, sef hyrwyddo dibenion yr ymddiriedolaeth.”

## Y ddyletswydd i hyrwyddo dibenion yr elusen er budd y cyhoedd

90. Gan ei fod yn rhan annatod o bob diben elusennol ei fod er budd y cyhoedd, mae dyletswydd ymddiriedolwyr elusen i hyrwyddo dibenion eu helusen yn cynnwys dyletswydd i hyrwyddo ei dibenion er budd y cyhoedd<sup>82</sup>.

91. Mae’r budd cyhoedd sy’n rhan annatod o ddiben elusennol yn amrywio yn ôl natur a thelerau’r diben. Felly mae dyletswydd ymddiriedolwyr elusen i hyrwyddo dibenion yr elusen er budd y cyhoedd yn ddyletswydd i’w hyrwyddo i ddarparu budd cyhoeddus o’r fath sy’n rhan annatod o ddibenion yr elusen.

92. Er enghraifft, yn achos ysgol elusennol, fel rheol y budd cyhoeddus sy’n rhan annatod o ddibenion yr elusen fydd yr hyn sy’n deillio o addysg y plant. Os yw’r ymddiriedolwyr elusen yn caniatáu i gyfleusterau’r ysgol gael eu defnyddio ar gyfer addysg oedolion yn yr hwyr, ni fydd hyn ynddo’i hun yn cyfrannu’n arwyddocaol at gyflawni dyletswydd ymddiriedolwyr elusen i hyrwyddo dibenion yr elusen er budd y cyhoedd<sup>83</sup>.

93. Yn **IRC v Educational Grants Association Ltd**<sup>84</sup> amcanion cwmni elusennol oedd hyrwyddo addysg. Roedd yn cael ei incwm yn bennaf o un cwmni, a defnyddiwyd rhwng 75% ac 85% o’i wariant ar gyfer addysg plant gweithwyr y cwmni. Ni fyddai wedi bod modd creu ymddiriedolaeth elusennol ar gyfer addysg plant gweithwyr y cwmni yn unig<sup>85</sup>. Penderfynodd y Llys Apêl nad oedd yr incwm a ddefnyddiwyd ar gyfer addysg plant gweithwyr y cwmni yn gymwys i gael ei eithrio rhag treth incwm, oherwydd nid oedd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion elusennol yn unig. Mae’r achos yn dangos bod rhaid i ymddiriedolwyr elusen ystyried y cyfan o’r dosbarth a allai gael budd o ddiben eu helusen os ydynt am arfer eu disgresiwn yn briodol wrth ddewis pa fuddiolwyr fydd yn cael budd mewn gwirionedd.

81 [1992] 1 WLR. 1241 yn 1246B.

82 Gweler **R (Independent Schools Council) v Comisiwn Elusennau** [2012] Ch 214 yn [194] - [195]. Adlewyrchir y ddyletswydd hon yng ngeiriad Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 (SI2008/629), rheoliadau 40 a 41, sydd, yn yr amgylchiadau pan fyddant yn gymwys, yn gofyn i ymddiriedolwyr elusen adrodd ar ‘weithgareddau arwyddocaol a gyflawnir gan yr elusen... i hyrwyddo ei dibenion elusennol er budd y cyhoedd’.

83 Gweler **R (Independent Schools Council) v Comisiwn Elusennau** [2012] Ch 214 yn [192], [196] - [203].

84 [1967] Ch 993, a drafodir yn **R (Independent Schools Council) v Comisiwn Elusennau** [2012] Ch 214 yn [148] - [154].

85 **Oppenheim v Tobacco Securities Trust Co Ltd** [1951] AC 297.

94. Os yw elusen yn cyfyngu darparu buddion i aelodau, cefnogwyr neu danysgrifwyr, efallai na fydd ei dibenion yn cael eu cyflawni er budd y cyhoedd. Ond gall fod yn briodol i elusen ddefnyddio aelodaeth neu strwythur tebyg i hyrwyddo ei dibenion elusennol er budd y cyhoedd. Er enghraifft, efallai y bydd angen i elusen gyda'r diben o hyrwyddo chwaraeon amatur reoli mynediad i'w chyfleusterau am resymau diogelwch, neu oherwydd bod mwy o alw am ei chyfleusterau na'r hyn y gall yr elusen ei ddarparu. Mewn achos o'r fath, gall fod modd cyfiawnhau cyfyngu buddion i aelodau fel buddion damweiniol i gyflawni dibenion yr elusen er budd y cyhoedd. Mewn achos o'r fath, dylai ymddiriedolwyr yr elusen sicrhau bod y trefniadau ar gyfer bod yn aelod yn dryloyw ac yn deg.

## Pan fydd ymddiriedolwyr elusen yn cyflawni tor-ddyletswydd

95. Mae perfformio dyletswyddau ymddiriedolwyr elusen yn golygu ymarfer disgresiwn. Mae disgresiwn yn cael i roi i'r ymddiriedolwyr elusen yn rhinwedd ymddiriedol, ac felly mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen ymarfer disgresiwn mewn ewyllys da, ar gyfer y dibenion y cawsant eu rhoi ar eu cyfer, ar ôl rhoi sylw i'r holl ystyriaethau perthnasol, a diystyru'r holl ystyriaethau amherthnasol.

96. Mewn sawl sefyllfa, bydd amryw o benderfyniadau y gall yr ymddiriedolwyr elusen, gan weithredu'n briodol, eu gwneud. Os yw'r ymddiriedolwyr elusen, gan weithredu'n briodol, yn gwneud penderfyniad o fewn yr ystod honno, ni fyddant yn cyflawni tor-dyletswydd<sup>86</sup>.

## Newid dibenion

97. Mae adran 61 o Ddeddf Elusennau 2011 yn datgan bod ymddiriedolwyr elusen o dan ddyletswydd, os yw'r achos yn caniatáu ac yn gofyn i'r eiddo neu ryw ran o'r eiddo gael ei ddefnyddio cy-près, i sicrhau bod yr elusen yn ei ddefnyddio'n effeithiol drwy gymryd camau sy'n galluogi'r elusen i'w ddefnyddio felly. Mae adran 62 yn amlinellu'r amgylchiadau pan fydd ceisiadau cy-près yn bosibl. Mae awdurdodaeth y llysoedd a'r Comisiwn i wneud cynlluniau cy-près yn cynnig modd i eiddo elusennol barhau i gael ei ddefnyddio er budd y cyhoedd pan fydd amgylchiadau'n newid.

## Codi tâl am wasanaethau

98. Nid oes unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i godi tâl am wasanaethau a ddarperir gan elusennau. Felly yn **Scottish Burial Reform and Cremation Society Ltd v Glasgow Corporation**<sup>87</sup> dywedodd yr Arglwydd Reid:

“...ni phenderfynwyd erioed bod amcanion, heblaw rhai elusennol, yn peidio â bod yn elusennol os oes rhaid i'r buddiolwyr wneud taliadau am yr hyn y maent yn ei dderbyn.”

99. Yn **R (ISC) v Comisiwn Elusennau**<sup>88</sup> roedd yr Uwch Dribiwnlys wedi ystyried dyletswyddau ymddiriedolwyr elusen ysgolion elusennol sy'n codi ffioedd. Daw'r prif bwyntiau canlynol o'r drafodaeth honno:

- a. Nid yw disgybl y mae ei deulu yn gallu talu ffioedd yn fuddiolwr llai posibl elusen o'r fath na disgybl heb unrhyw un i dalu ei ffioedd. Mae gan y ddau angen am yr addysg y mae'n ddiben i'r elusen ei darparu<sup>89</sup>.

<sup>86</sup> Gweler **R (Independent Schools Council) v Comisiwn Elusennau** [2012] Ch 214 at [220].

<sup>87</sup> [1968] AC 138 yn 147G.

<sup>88</sup> [2002] Ch 214.

<sup>89</sup> Paragraff [195]. [214].

- b. Wrth benderfynu a yw ysgol elusennol sy'n codi ffioedd yn cyflawni ei dibenion er budd y cyhoedd, mae'n gyfreithlon i ystyried i ba raddau y mae'n rhaid i'r ysgol godi ffioedd i dalu am ei gwariant. Os oes rhaid i'r ysgol, yn ôl yr arfer, gael incwm o ffioedd i fod yn hyfyw, mae'n gyfreithlon i'r disgyblion a dderbynnir gael eu pwysoli o blaid buddiolwyr posibl sy'n gallu talu ffioedd<sup>90</sup>.
- c. Os yw'r taliadau a godir gan ysgol elusennol sy'n codi ffioedd yn fwy na'r hyn y gall y tlawd ei fforddio, mae'n rhaid i'w hymddiriedolwyr ddarparu budd ar gyfer buddiolwyr posibl yr elusen sy'n dlawd sy'n fwy na'r lleiafrif neu'n weithred wag. Ymhellach na hynny, mae'r cwestiwn o ba ddarpariaeth i'w gwneud ar gyfer y buddiolwyr posibl sy'n dlawd i'w benderfynu gan yr ymddiriedolwyr elusen yn ôl eu disgrisiwn<sup>91</sup>.
- ch. Wrth benderfynu a yw buddiolwr posibl yn dlawd neu beidio, gall fod yn briodol i edrych ymhellach nag amgylchiadau'r buddiolwr ar ei ben ei hun: gall amgylchiadau ei deulu ei atal rhag cael ei drin fel rhywun 'tlawd'; efallai na fydd ei gymhwyster i gael grant o ffynhonnell arall yn ei atal rhag cael ei drin felly<sup>92</sup>.
- d. Yn achos elusen y mae eu ffioedd yn fwy nag y gall y tlawd eu fforddio, bydd buddiolwyr posibl sydd heb fod yn dlawd ond sydd ddim yn gallu fforddio'r ffioedd llawn. Nid oedd y Tribiwnlys wedi rhagnodi unrhyw lefel leiaf o ddarpariaeth ar gyfer buddiolwyr posibl o'r fath, gan drin y mater fel un i'w benderfynu gan yr ymddiriedolwyr yn ôl eu disgrisiwn<sup>93</sup>.
- dd. Wrth benderfynu a yw ysgol elusennol sy'n codi ffioedd yn cyflawni ei dibenion er budd y cyhoedd:
- mae'n rhaid i'r prif ffocws fod ar y buddion uniongyrchol y mae'n eu darparu<sup>94</sup>
  - gall yr holl fuddion y mae'n eu darparu er mwyn hyrwyddo ei dibenion elusennol gael eu hystyried<sup>95</sup>
  - ni all buddion y mae'n eu darparu sydd heb eu cysylltu â'i dibenion elusennol gael eu hystyried<sup>96</sup>
- e. Os yw'r ysgol yn darparu cyfleusterau moethus, mae mwy o faich o ran dangos ei bod yn cyflawni ei dibenion er budd y cyhoedd<sup>97</sup>.

## Casgliad

100. Mae'r dadansoddiad cyfreithiol hwn yn bwriadu darparu datganiad o'r gyfraith y mae canllawiau statudol y Comisiwn wedi'u seilio arni. Ni fwriedir iddo fod yn ddatganiad cyflawn o'r gyfraith. Nid yw'n ffurfio rhan o ganllawiau budd cyhoeddus y Comisiwn ei hun. Bydd penderfyniadau unigol wedi'i seilio ar y gyfraith achosion berthnasol.

90 Paragraffau [210] - [211].

91 Paragraffau [215] - [[216], [222], [229], [233]].

92 Paragraffau [181] - [185].

93 Paragraffau [217], [220].

94 Paragraff [201].

95 Paragraffau [201] - [203].

96 Paragraff [204].

97 Paragraff [219]. Gallai'r cwestiwn godi a yw darparu buddion o'r fath yn fwy na buddion damweiniol i hyrwyddo diben elusennol.